# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr/Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | **STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD MAWRTH, 17 MEHEFIN 2014 am 2.00 o'r gloch** | **TUESDAY, 17 JUNE , 2014 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor    Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees (Cadeirydd/Chair), Alwyn Rowlands

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig), Gwag/Vacant (Penaethiaid Uwchradd/Secondary Headteachers)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 18 CHWEFROR, 2014** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2014.

3 **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH**

Derbyn cyflwyniad gan Kirsty Williams, yr Eglwys yng Nghymru yn rhinwedd ei swydd fel Galluogwr Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys.

4 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL - ADRODDIADAU ESTYN** (Tudalennau 7 - 8)

Derbyn gwybodaeth ynghylch ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion sydd wedi derbyn arolwg.

5 **CYFLAWNI DYLETSWYDDAU MONITRO'R CYSAG** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno gohebiaeth yr Awdurdod ac ymateb o ran craffu ar adroddiadau hunan-arfarnu a bod yn bresennol mewn sesiynau addoli ar y cyd.

6 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 13 - 26)

- Cyflwyno cofnodion drafft cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghaerffili ar 27 Mawrth, 2014. *(Fersiwn Saesneg)*
- Cyflwyno enwebiadau terfynol ar gyfer y Pwyllgor Gwaith.

7 **ADOLYGIAD O'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL A'R TREFNIADAU ASESU CYMRU** (Tudalennau 27 - 56)

- Cyflwyno'r ddogfen "Cais am Dystiolaeth."
- Cyflwyno'r Holiadur plant a phobl ifanc.

8 **GOHEBIAETH** (Tudalennau 57 - 58)

- Cyflwyno adroddiad gan y Diacon Stephen Roe o Gynhadledd Diogelu Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Mawrth, 2014.

9 **CYFARFOD NESAF**

Dydd Mawrth, 7 Hydref, 2014 am 2:00 o'r gloch y prynhawn.

# CYNGOR YMGYNGHOROL AR ADDYSG GREFYDDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones<br><br>**Enwadau Crefyddol**<br><br>Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb Annibynwyr Cymru) |
| **WRTH LAW**: | Mr D.Gareth Jones (Swyddog Addysg Cynradd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Gwilym O.Jones, Alun Mummery, Peter Rogers, Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig), Y Parchedig Elwyn Jones (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Miss Bethan James (Arweinydd Systemau – GwE), Christine Hunt (Ysgol y Santes Fair, Caergybi) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol ac estynnodd groeso arbennig i Miss Kirsty Williams i'w chyfarfod cyntaf o GYSAG Ynys Môn fel cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru ar gorff y CYSAG. Nododd y Cadeirydd hefyd nad oedd unrhyw gynrychiolydd o'r Grŵp Athrawon yn bresennol yn y cyfarfod ac nad oedd cworwm yn y cyfarfod oherwydd hynny ac felly ni ellid gwneud penderfyniadau. Awgrymwyd a chytunwyd felly bod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal ar sail trafodaeth yn unig.

**1 CYFLWYNIAD**

Cafwyd cyflwyniad gan Christine Hunt o Ysgol Gatholig y Santes Fair, Caergybi ar y dull o ddysgu Addysg Grefyddol yn Eglwys y Santes Fair fel ysgol ffydd gyda chyfeiriad arbennig at y pwyntiau a ganlyn:

- Statws Addysg Grefyddol fel pwnc craidd yn yr ysgol a'i ddarparu mewn ffordd hynod strwythuredig yn unol â'r cynllun gwaith Come and See a gyflwynwyd tua 4 blynedd yn ôl. Ar lefel iau, caiff y pwnc ei ddysgu am 2½ awr bob wythnos ac ar lefel y babanod caiff ei ddysgu am 2¼ awr bob wythnos ac yn yr adran feithrin am 2 awr yr wythnos.
- Y themâu a'r pynciau sydd o fewn Addysg Grefyddol yn yr ysgol ar draws y grwpiau blwyddyn a sut y mae'r rhain yn cysylltu â'r rhannau perthnasol o'r ysgrythur- "y grid ysgrythurol."
- Lefelau cyrhaeddiad mewn Addysg Grefyddol mewn perthynas â gwybodaeth a dealltwriaeth a myfyrio ar ystyr a sut y caiff y rhain eu gwerthuso. Bydd cymedroli'n digwydd ar sail esgobaethol.
- Trosolwg o'r pwnc o safbwynt y gwahanol adrannau sy'n cyfrannu ac yn cefnogi testun arbennig e.e. yr ysgrythur fydd yn cael ei defnyddio i ddysgu'r pwnc, yr adnoddau dysgu i'w defnyddio, y canlyniadau dysgu a thargedau cyrhaeddiad, cysylltiadau trawsgwricwlaidd â meysydd eraill o ddysgu yn ogystal â deunyddiau cefnogol ar ffurf gweddïau a chaneuon/emynau. Rhannwyd esiamplau o asesiadau ar bob lefel er gwybodaeth i'r Aelodau.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r CYSAG ofyn cwestiynau ar gynnwys y cyflwyniad ac roedd y materion canlynol ymysg y rhai a godwyd ac a drafodwyd -

- Sut mae'r ysgol yn rhoi sylw i ffydd a chredoau eraill a'r ymateb i'r hyn sydd yn ei hanfod yn gwricwlwm Cristionogol.
- O ystyried nad yw Addysg Grefyddol yn cael cymaint o amlygrwydd mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a oes unrhyw effaith y gellir ei weld ar agweddau ac ymddygiad cyffredinol plant mewn ysgolion lle mae mwy o bwyslais ar Addysg Grefyddol.
- Y pontio o ysgol gynradd sy'n ysgol ffydd i ysgol uwchradd prif-lif.
- Sut mae cynllun gwaith Addysg Grefyddol yn Ysgol y Santes Fair gyda'i bwyslais ar gynnwys ysgrythurol a thymhorau'r eglwys a'r amser a roddir i ddysgu AG yn cymharu gyda'r Maes Llafur Cytun Lleol ar gyfer AG yn ysgolion yr Awdurdod.
- Y trefniadau yn yr ysgol ar gyfer adlewyrchu'r Cwricwlwm Cymreig ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd-eang ac a oedd hynny'n cael ei wneud o fewn AG neu drwy bynciau eraill yn y cwricwlwm.
- Y lefel o gydweithio gydag ysgolion cynradd eraill yn ardal dalgylch Caergybi a'r cyfleon ar gyfer cydweithio, rhannu a gweithio gyda'i gilydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Christine Hunt am ei hamser yn mynychu'r cyfarfod hwn o'r CYSAG ac yn rhannu gyda'i Aelodau esiamplau o'r gwaith a'r arferion yn Ysgol y Santes Fair.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013 yn amodol ar newid y cyfeiriad at "weithdy ar y cyd" o dan y trydydd pwynt bwled yn eitem 4 i ddarllen "addoli ar y cyd".

Materion yn codi –

- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg bod adroddiadau hunanwerthuso Ysgol y Tywyn ac Ysgol Gynradd Llanddona wedi eu hail-gyflwyno wedi eu cwblhau'n llawn.
- Dywedodd y Swyddog Addysg y byddai'n cylchredeg copi o'r ddogfen gyfarwyddo o'r enw Pobl, Cwestiynau a Chredoau – Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen i ysgolion cynradd yr Awdurdod fel yr oedd wedi ei anfon ymlaen iddo ef gan yr Arweinydd Systemau. Eglurwyd nad oedd y ddogfen bellach ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru. Ategodd yr Arweinydd Systemau mai'r amcan wrth argymell y dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu i ysgolion yw bod ysgolion yn ei defnyddio fel ffynhonnell syniadau ond nid fel sail ar gyfer newid arferion.
- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg bod Ysgolion Gyfun Llangefni ac Uwchradd Bodedern wedi anfon eu data perfformiad CA3 mewn AG.
- Dywedodd Mr Stephen Francis Roe wrth y CYSAG bod y cyfarfod o Fwrdd Diogelu Lleol Gwynedd a Môn ar 28 Ionawr yr enwebwyd ef i'w fynychu, wedi ei ohirio oherwydd bod Cynhadledd Diogelu Gogledd Cymru arfaethedig i'w chynnal ym mis Mawrth. Cadarnhaodd Mr Roe ei fod wedi cofrestru ar gyfer y gynhadledd Gogledd Cymru.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN

Cafwyd cyflwyniad gan yr Arweinydd Systemau i'r CYSAG yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan CYSAG i'r Awdurdod Lleol fel roeddent i'w gweld yn ei Adroddiad Blynyddol 2012/13 mewn perthynas â hyrwyddo arfer dda a chynnal safonau o fewn y Ddarpariaeth o AG a threfniadau addoli ar y cyd ar draws ysgolion y sir ac mewn perthynas â hyrwyddo mynediad i athrawon AG ac ymarferwyr i gyfarwyddyd a deunyddiau cefnogol. Yn ei chyflwyniad, canolbwyntiodd yr Arweinydd Systemau ar sut y gellir sicrhau'r CYSAG bod yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu'n llawn gan yr Awdurdod Lleol a sut y gall wedi hynny werthuso ei effeithlonrwydd ei hun fel corff ymgynghorol.

Wrth drafod rôl y CYSAG yn cefnogi Cydlynwyr Addysg Grefyddol ac arweinyddion pwnc, fe wnaed y pwyntiau canlynol –



DRAFT

- Gan gofio bod y ffocws cenedlaethol ar Lythrennedd a Rhifedd fel meysydd blaenoriaeth yn y rhaglen gwella ysgolion a'r pwyslais a roddir ar wella'r sgiliau hynny ar draws pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, fe all AG fod â goblygiadau o ran potensial ar gyfer dysgu'r rhain.
- Yr angen i athrawon ysgol / prifathrawon sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer AG yn cael ei gwneud mewn trefniadau hyfforddi athrawon.
- Yr angen i ystyried ffyrdd o alluogi'r CYSAG i fonitro a yw hyfforddiant wedi digwydd a'i effeithlonrwydd e.e. drwy gasglu safbwyntiau drwy holiadur blynyddol i athrawon allai fynd i'r afael â'r ystod a'r nifer o gyfleon a ddarperir ar gyfer hyfforddiant AG a'r gweithgareddau a wnaed.
- Yr angen i ystyried ffynonellau tebygol o hyfforddiant ar ffurf Eglwysi a sefydliadau trydydd parti fel Mudiad Addysg Grefyddol Cymru. Nodwyd bod MAGC ar hyn o bryd yn ystyried pa ran y gall ei chwarae fel cydlynydd hyfforddiant ar draws Cymru yn amodol ar gael cytundeb ynglŷn â chyllid a threfniadau eraill gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol, consortia addysg ac / neu ysgolion.
- Y posibilrwydd y gallai Aelodau'r CYSAG ymweld ag ysgolion unigol fel sylwedyddion fel ffordd o gyflawni cyfrifoldeb monitro'r corff mewn perthynas â threfniadau addoli ar y cyd yn yr ysgolion a sut y gellid cynnal ymweliadau o'r fath yn ymarferol. Awgrymwyd y gallai Aelodau o'r CYSAG gael eu cyfatebu gyda'u hysgolion lleol ac y dylai unrhyw ymweliadau a gynhelir fod ar sail gwahoddiad gan yr ysgol.
- Yr angen i ddatblygu protocol ar gyfer casglu gwybodaeth am ymweliadau i ysgolion ac o fwydo'r wybodaeth yn ôl wedyn i'r fforwm CYSAG. Awgrymwyd y dylid datblygu holiadur yn arbennig ar gyfer defnydd Aelodau'r CYSAG er mwyn sicrhau y ceir cysondeb o ran agwedd ac adrodd yn ôl mewn ymweliadau o'r fath.
- Bod ystyriaeth yn cael ei roi i ffurfio Cynllun Gweithredu i alluogi'r CYSAG i fonitro cynnydd yn rheolaidd parthed cyflawni nodau ac amcanion yr Adroddiad Blynyddol.

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Arweinydd Systemau i adrodd yn ôl i'r CYSAG ar opsiynau posibl ar gyfer rhoi sylw i'r canlynol:**
  - **I nodi dulliau o hwyluso a chefnogi cyrsiau hyfforddi i athrawon/cydlynwyr AG.**
  - **I nodi ffyrdd o gael atborth gan athrawon ar gyfleon i gael mynediad i hyfforddiant a rhannu arfer dda ac effeithlonrwydd hynny.**
  - **I nodi ffyrdd i CYSAG gael gwybodaeth a dealltwriaeth o drefniadau addoli ar y cyd mewn ysgolion fel y gall y corff gyflawni ei gyfrifoldebau monitro yng nghyswllt hynny.**
- **Y Swyddog Addysg mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Systemau i ddatblygu Cynllun Gweithredu fel y gall y CYSAG dracio cynnydd ar gyflawni amcanion yr Adroddiad Blynyddol.**

**5 SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL**

5.1 Cyflwynwyd adroddiadau hunan-arfarnu Ysgol y Fali ac Ysgol Pentraeth a nodwyd eu cynnwys gan Aelodau'r CYSAG.

5.2 Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Addysg yn cynnwys y canfyddiadau perthnasol o adroddiadau arolwg Estyn ar Ysgol Ffrwd Win, Ysgol Caergeiliog ac Ysgol y Santes Fair a nodwyd y wybodaeth gan Aelodau'r CYSAG.

**6 Y FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD CENEDLAETHOL AC ADOLYGU CWRICWLWM CENEDLAETHOL CYMRU**

- Rhoddodd yr Arweinydd Systemau gyflwyniad ar ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol drwy gyfeirio ar y Rhaglen Gefnogi Genedlaethol sy'n darparu cefnogaeth i ysgolion gyda gweithredu'r Fframwaith. Eglurodd y disgwyliadau y bydd y gofynion yn eu rhoi ar athrawon Addysg Grefyddol fel a ganlyn -
  - Rhaid i'r Fframwaith gael ei hintegreiddio o fewn cynlluniau gwersi.



DRAFT

DRAFT

- Athrawon i ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu i ddysgu ac addasu rhifedd, darllen, ysgrifennu a llafaredd i'r ystod lawn o lefelau sgiliau a gallu.
- Athrawon i fod â'r arbenigedd i ddysgu a gosod tasgau priodol fel y gall sgiliau llythrennedd a rhifedd gael eu hasesu ochr yn ochr â chynnwys pob maes pwnc.
- Athrawon i allu dehongli canfyddiadau'r asesiadau a'u defnyddio i ffurfio cynlluniau addysg unigol.
- Athrawon i ddeall bod profion llythrennedd a rhifedd yn seiliedig ar y Fframwaith ac y dylent fedru paratoi dysgwyr yn unol â hynny.

  Aeth yr Arweinydd Systemau ymlaen i ddangos sut y gall Addysg Grefyddol fel pwnc gael ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau rhifedd, er enghraifft drwy ddefnyddio'r profiad o ymweld â chapel i gyfrifo faint o bobl all eistedd yn y capel a sut y gallai'r testun gael ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau llythrennedd er enghraifft drwy lunio poster i egluro ystyr yr ŵyl Hindŵ Diwali fyddai'n rhoi tystiolaeth o allu i ffurfio brawddegau, gramadeg, sillafu, atalnodi a llawysgrifen.  Dywedodd y Swyddog bod yr her o ran rhifedd yn benodol yn gorwedd gyda cheisio nodi cyd-destun rhifedd o fewn AG sydd wedi ei osod ar lefel briodol o'r Fframwaith Rhifedd h.y. un nad yw'n rhy simplistig.

- O safbwynt yr adolygiad o'r Cwricilwm Cenedlaethol, cadarnhaodd yr Arweinydd Systemau ei bod hi a chyn ymgynghorwyr eraill yn y dyniaethau wedi cyfarfod fel grŵp ddechrau mis Ionawr i ffurfio ymateb ar ran NAPfRE a hefyd y CYSAG i'r cyfnod cyntaf o'r adolygiad gan ddweud y dylai Addysg Grefyddol gael ei chynnwys mewn unrhyw ddatblygiadau ac/neu esiamplau a rennir gydag athrawon.  Roedd ail gyfnod yr adolygiad yn golygu cynnwys cwricwlaidd ac yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cymru, sef bod y cwricwlwm yn un sydd ag amrywiaeth ac sy'n dysgu i ddisgyblion y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei hangen i'w galluogi hwy i symud ymlaen yn y byd y tu hwnt i'r ysgol.  Aeth yr Arweinydd Systemau ymlaen i egluro sut y gallai'r disgwyliadau hyn berthnasu i AG sydd â sail statudol iddo ac sy'n cael ei lywodraethu gan maes llafur cytunedig wedi ei benderfynu'n lleol, o ran sicrhau bod AG yn adlewyrchu'r datblygiadau sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Cwricwlwm.  Dywedodd y byddai'n ymateb i ail gyfnod yr ymgynghori, y disgwylir iddo fod ag amserlen dynn iawn, drwy bwysleisio'r angen i gynnwys AG mewn unrhyw ddatblygiadau, cyfarwyddyd, a deunyddiau enghreifftiol.

  Yn y drafodaeth a ddilynodd, ystyriodd yr Aelodau'r mater o ymgysylltu â sefydliadau allanol er mwyn cynyddu diddordeb yn y dosbarth fel y cyfeiriwyd at hynny gan yr Arweinydd Systemau yn ei chyflwyniad a chrybwyllwyd yn benodol yr elusen Open the Book lle ceir grwpiau o wirfoddolwyr yn ymweld ag ysgolion cynradd i ddramateiddioio rhai storïau o'r Beibl.  Ystyriodd y CYSAG a oedd ysgolion lleol yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth hwn ac oni fyddai mwy o ysgolion yn dymuno gwneud defnydd o'r adnodd hwn pe baent yn gwybod ei fod ar gael?

## 7 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

7.1 Cyflwynwyd a nodwyd cofnodion drafft y cyfarfod o CCYSAGC a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Hydref 2013.

Cadarnhaodd Miss Bethan James a Mr Rheinallt Thomas, i'r Is-Gadeirydd y byddent yn mynychu'r cyfarfod nesaf o'r CCYSAGC yng Nghaerffili ar 27 Mawrth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr arfer mewn cyfarfodydd o'r CCYSAGC o gynnal cyfnod o fyfyrdod distaw ac awgrymodd y byddai'r CYSAG fel corff yn dymuno ystyried cynnal yr arferiad neu rywbeth tebyg yn ei gyfarfodydd ei hun, yn amodol ar gael cadarnhad y Swyddog Monitro ynglŷn â phriodoldeb gwneud hynny.  Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r Swyddog a gofynnodd i'r Aelodau ystyried yr opsiynau canlynol gyda golwg ar ddod i gytundeb yn y cyfarfod nesaf -

- Cadw pethau fel ag y maent
- Gweddi i'w rhoi cyn dechrau'r cyfarfod ffurfiol
- Cyfnod o fyfyrdod tawel
- Munud i feddwl

7.2 Cyflwynwyd er ystyriaeth yr Aelodau ohebiaeth gan Ysgrifennydd y CCYSAGC dyddiedig 5 Chwefror 2014 yn gwahodd cyrff CYSAG i ystyried gwneud enwebiadau i Bwyllgor Gwaith y CCYSAGC.

Nododd yr Is-Gadeirydd na allai CYSAG Ynys Môn enwebu un o'i Aelodau ei hun i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd ei fod eisoes yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor, er bod ganddo hawl, fodd bynnag i wneud enwebiad arall be bai'n dymuno.

Nododd Aelodau'r CYSAG bod gan Mr Rheinallt Thomas, Is-Gadeirydd CYSAG Ynys Môn ac aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGC, flwyddyn arall ar ôl o'i gyfnod o wasanaeth.

**8 GOHEBIAETH**

Cyflwynwyd a nodwyd gohebiaeth gan Y Parchedig Ganon Robert Townsend a Swyddfa Rhun ap Iorwerth, AC.

**Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

**Adroddiadau Estyn Reports**

**Gwanwyn 2014 Spring.**

**Ysgol Biwmares.**

Mae’r ddarpariaeth yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu’r gwerthoedd positif hyn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol.

*The provision deals appropriately with the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education.*

*Provision for promoting social, moral, cultural and spiritual development is good. Collective worship sessions reinforce these positive values successfully across the school.*

**Ysgol Goronwy Owen.**

Mae cynlluniau diweddar yr ysgol yn ymateb yn briodol I ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol.

Mae’r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr sy’n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol disgyblion yn dda trwy wasanaethau rheolaidd yn yr ysgol ac yn y gymuned.

*The school’s recent plans respond appropriately to the requirements of the National Curriculum, the Foundation Phase and religious education.*

*The school provides valuable experiences that promote pupils’ moral, spiritual and social development well through regular assemblies in the school and in the community.*

This page is intentionally left blank

11/06/2014

Annwyl Bennaeth

**PAR:-  CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDOLG O'R ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Mae CYSAG yn gorff statudol o fewn y Cyngor gyda'r amcan o hyrwyddo'r safonnau uchaf o fewn Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Mae aelodaeth y Corff yn cynnwys aelodau etholedig, yr enwadau crefyddol, athrawon ac aelodau cyfetholedig.

Ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cydwethrediad gyda'r ceisiadau canlynol gan y Corff.

1) **Adroddiadau hunan arfarnu**

Mae'r Corff yn awyddus i dderbyn adroddiadau hunan arfarnu oddi wrth yr ysgolion i'w trafod o fewn eu cyfarfodydd tymhorol.  Amgaeaf adroddiad Ysgol Corn Hir sydd wedi ei adnabod yn genedlaethol fel esiampl o arfer da.

a) Gofynnir i'r ysgolion canlynol gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 24 Hydref, 2014.

| | | |
|---|---|---|
| **Gyfun Llangefni** | Llangoed | Llanfechell |
| **Syr Thomas Jones** | Parch.Thomas Ellis | Goronwy Owen |
| Parc | Llannerchymedd | Biwmares |
| Pencarnisiog | Esceifiog | Caergeiliog |
| Bodffordd | Llangaffo | Santes Fair |
| Ffrwd Win | Parc y Bont | Y Borth |

b) Gofynir i'r ysgolion canlynol gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 13 Chwefror, 2015.

| | | |
|---|---|---|
| **David Hughes** | Bodorgan | Kingsland |
| **Y Bont** | Amlwch | Llanfawr |
| Talwrn | Llandegfan | Morswyn |
| Cylch y Garn | Y Graig | Rhosneigr |
| Rhoscolyn | Llanfairpwllgwyngyll | Dwyran |
| Bodedern | Niwbwrch | Henblas |

c) Gofynnir i'r ysgolion canlynol gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 22 Mai, 2015.

| | | |
|---|---|---|
| **Uwchradd Bodedern** | Brynsiencyn | Llanbedrgoch |
| **Uwchradd Caergybi** | Penysarn | Y Tywyn |
| Llaingoch | Carreglefn | Pentraeth |
| Moelfre | Rhosybol | Y Ffridd |
| Corn Hir | Llanfachraeth | Bryngwran |
| Y Fali | Cemaes | |

Ni rhagwelir y bydd hyn yn faich ychwanegol gan fod angen cwblhau'r gwaith o fewn trefniadau hunan arfarnu'r ysgol gan gydgysylltydd y maes o fewn yr ysgol.

2) **Ymweliadau Addoli ar y Cyd**

Mae aelodau'r Corff yn awyddus i fynychu cyfnod addoli ar y cyd o fewn ysgol. Yn y lle cyntaf gofynnir am ysgolion i wirfoddoli ac i gynnig eu hunain. Dylech wneud hyn drwy lenwi'r daflen ar ddiwedd y llythyr a'i ddanfon yn ôl i fy sylw. Byddaf wedyn yn trefnu i un o'r aelodau gysylltu gyda chwi i drefnu amser a dyddiad cyfleus. Bwriad hyn yw i'r aelod ymuno yn yr addoli nid i arwain; mae'r aelodau yn awyddus i fod gyda'r staff a'r disgyblion er mwyn cael ymdeimald o brofiadau'r disgyblion yn y maes allweddol hwn.

Pe dymunwch gellwch ddangos ychydig o waith y disgyblion i'r ymwelydd ond nid oes unrhyw fwriad i droi'r ymweliad yn ryw fath o arolygiad.

Bydd y llythyr hwn a'r adroddiad hunan arfarniad ar wefan Addysg Môn.

Yn gywir

Gareth Jones
Clerc CYSAG
Swyddog Addysg

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# <u>CYSAG / *SACRE*</u>

## <u>ADDOLI AR Y CYD / *COLLECTIVE WORSHIP*</u>

**Ysgol/**
***School*** ________________________________________

Mae'r ysgol yn awyddus i wahodd aelod o CYSAG draw i ymuno gyda'r disgyblion a'r staff wrth addoli ar y cyd.

*The school is keen to invite a member of SACRE to join in collective worship with the pupils and staff.*

**Arwyddwyd/*Signed***

**Pennaeth:**
***Headteacher*:-** ____________________________________________________

**Dyddiad**
***Date* :-** ________________________________________________________

This page is intentionally left blank

**Cyfarfod CCYSAGauC, Caerffili, 27 Mawrth 2014 / *Wales Association of SACREs meeting, Caerphilly, 27 March 2014***

DRAFT

**Ynys Môn / *Anglesey***
Bethan James
Rheinallt Thomas

**Blaenau Gwent**
Gill Vaisey

**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***
Carys Pritchard
Edward Evans

**Caerffili/ *Caerphilly***
Cllr Michael Gray
Vicky Thomas
Martyn Western
Helen Bartley
Bethan Davies
Enfys Hawthorn
Janet Jones
David Cailen

**Caerdydd / *Cardiff***
Carys Pritchard
J. Singh (Cardiff Sikh Community)

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***
Mary Parry
Meinir Wynne Loader
Helen Gibbon

**Ceredigion**

**Conwy**
Phil Lord
N.C. Richter

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***
Phil Lord

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Phil Lord

**Gwynedd**
Bethan James

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***
Carys Pritchard

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
Gill Vaisey
Sue Cave
Sharon Perry-Phillips

**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***
Rachel Samuel

**Casnewydd / *Newport***
Vicky Thomas
Sally Northcott
P.T. Williams
Amanda Davies

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***

**Powys**
John Mitson

**Rhondda Cynon Taf**
Carys Pritchard
Cllr Jane Ward

**Abertawe / *Swansea***
Vicky Thomas

**Torfaen**
Vicky Thomas

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Carys Pritchard
Dafydd Treharne

**Wrecsam / *Wrexham***
Libby Jones
Tania ap Siôn

**Sylwedyddion / *Observers***
Leslie Francis
Trudor Thomas- WJEC
Mike Strange- RE Quest

**Minutes**

1. **Croeso / *Welcome*.** Chair, Tania ap Sion welcomed members and apologised for the difficulties with the sound system and its interference with the translation. Tania ap Sion introduced Keri Cole, Manager for Education and Inclusion from Caerphilly Local Authority, who welcomed WASACRE members to Caerphilly and expressed her hope that the meeting would be beneficial to all members and an opportunity for reflection. Ms Cole went on to introduce The Mayor of Caerphilly, Councillor Michael Gray.

   Councillor Gray welcomed SACRE representatives from all over Wales to the spring meeting, expressing his delight that WASACRE accepted his invitation to hold the meeting here during his year as Mayor. Councillor Gray acknowledged the hard work of the Wales Association of SACREs and went on to thank local authorities for their support and WASACRE for the important work it does. He highlighted some very important initiatives that WASACRE has recently either initiated or supported, including the Estyn Thematic Review of Religious Education in the Secondary School, the KS3 Training led by Executive member Gavin Craigen, the WASACRE Conference, and WASACRE's work on the REQM for Wales led by Executive member Phil Lord. Councillor Gray emphasised the importance of the Association's work relating to the issues of the 22 SACREs in Wales. Finally the Mayor extended an invitation to all members to visit Mayor's parlour and to lunch in the glass restaurant.

   Tania ap Sion thanked both the Mayor and Ms Cole before continuing with the agenda.

2. **Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection*.** Tania ap Sion asked members to pause for reflection on the meeting ahead and their contributions to it.

3. **Ymddiheuriadau / *Apologies*.** Gavin Craigen, Jen Malcolm, Cllr Janice Dudley, Ben Wigley, Cllr Huw Jones, Parch Gethin Rhys and Mark Brown

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Rhondda Cynon Taf, 10 Hydref 2013 /**
   ***Minutes of meeting held in Rhondda Cynon Taf, 10 October 2013*.** Proposed by Vicky Thomas as a correct record of the meeting and seconded by Carys Pritchard.

5. **Materion sy'n codi / *Matters arising*.** Item 5 (under item 7 up-dates). In relation to the KS3 training provided by Gavin Craigen on using levels in RE, Mary Parry suggested asking schools what impact it had on their practice in the classroom. The outcome of the discussion which ensued was that it would be useful to do this follow up exercise in the form of a questionnaire sent out only to those who attended the training and that it could be used as part of the SACRE monitoring process as there is a strong emphasis on evaluating and providing impact. Item 5 (under item 7 up-dates). Tania ap Sion confirmed that the report for the Review of SACRE Reports has now been officially published and has been circulated by WASACRE Secretary Libby Jones to all SACREs. A summary of the recommendations has been produced and is on the WASACRE website. Mary Parry thanked Libby for sending this out but added that Welsh Government should be sending this information directly to SACREs. Members were in agreement that WASACRE should write to WG to ask them to send information of this kind including examination data, straight to SACRE's in future to ensure that each SACRE is equipped to carry out its statutory duties. Letter to be sent to Welsh Government by Libby Jones. Item 6 Welsh Government contacts. This was discussed in the agenda item relating to the Executives minutes.

6. **Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2014 /**
   ***Report from the Executive Committee meeting held on 4 February 2014***

   Issues raised in the minutes included:

Item 4: Welsh Government contacts. This has been an area of concern since Denize Morris changed her role. Last September we made contact with Nia Mair Jones who followed up some of our issues, but who has now moved on. Our new contact is now Louise Thomas with whom we have discussed our current issues. The Executive and NAPfRE has a list of other issues to raise in a meeting with Louise scheduled for 14 May 2014 in Llandrindod wells (to be confirmed). Two of the most pressing areas of concern are: 1. SACREs within the new regional arrangements and consortia working. WASACRE is looking for a firm and clear steer on who is responsible for SACREs. 2. The Foundation Phase document, why it was removed from the Welsh Government website, whether it can still be used and sent out to schools and whether it is going to be changed and/or revised?

Item 11: RE News. Rheinallt Thomas reported on behalf of Vaughan Salisbury that there is no longer any need for RE News to be involved in discussions relating to working more closely with WASACRE and REMW because their financial issues had been addressed. RE News website would now be available free of charge. Treasurer John Mitson said that he does not anticipate that there will be a request for funding from WASACRE, as there has been no REflections included recently in RE News online and the funding issues had been addressed. Libby Jones will write to Vaughan Salisbury and Rachel Bendow to ask what the situation is in this respect. Vicky Thomas enquired whether Trinity St David's will be informing schools that they can access RE News free of charge now, or whether it is the responsibility of each local SACRE to do this, adding that there should be a clear process for informing teachers and schools.

Item 13: EFTRE Representation. The Chair thanked Mary Parry for her work in that role and expressed gratitude to Phil Lord who has kindly agreed to be the new WASACRE representative on EFTRE. Phil Lord shared his experience of his first EFTRE meeting by saying that it was an eye opener to see how RE is taught across Europe and Phil drew members' attention to the EFTRE website, adding that we are hoping to connect more with schools in Europe and information about this will be circulated through WASACRE meetings.

Item 17: The RE council for England and Wales are holding their AGM in Cardiff. The Chair thanked Edward Evans for the initial contact in Welsh Government. Arrangements for the event have been made by WASACRE in partnership with the RE Council. The Chair thanked Libby Jones for her work in this area.

Item 10: Welsh Government Curriculum Review. Members of WASACRE and NAPfRE met in January in Newtown to respond to the consultation document of the curriculum review. A summary of responses has been published on the Welsh Government website and we will make this available on the WASACRE website. Carys Pritchard shared some of the latest statistics from the website only made available that morning: there are 324 responses across Wales, which is a strong response from the RE world. There is some acknowledgement of Religious Education, but we do need to keep the pressure on. Tania ap Sion thanked Carys for bringing this to the meeting and members agreed that members from the WASACRE Executive, in partnership with NAPfRE, should continue with this as a priority.

**7. Cyflwyniad PYCAG/ *NAPfRE presentation.* RE:Quest – Michael Strange**.

In his introduction Mr Strange offered members free resources (DVDs) to share with teachers in their area and gave a presentation and demonstration of some of the new RE Quest online resources available on the website. The new website went live in August 2014 for KS2, 3 and 4. For Foundation Phase resources the old website is more suitable and can still be accessed. The teacher's section on the new site includes teaching ideas, multimedia resources, seasonal resources and training resources, each offering a selection of five-minute videos featuring 'real' people. The website is colour coded to ease navigation and the main topic areas include: Bible, Festivals, Issues, Jesus, Life, and People. Mr Strange urged members to ask their SACREs to inform schools of this free resource which has been rebuilt and launched as, www.request.org.uk . On the website you can request an information leaflet to distribute to schools. Michael Strange said that a Welsh version of the leaflet would also be produced. There will be some Welsh resources on the new website as well as the old website. Thanks were offered to Michael and REQuest for this valuable resource and Tania ap Sion added thanks for the inclusion of Welsh examples too.

**8. Addroddiad cynhadledd CCYSAGauC / *WASACRE conference report***

Libby Jones and Gill Vaisey gave a presentation offering an overview of the conference, an evaluation of the outcomes and a slideshow of pictures taken during the event. Conclusions drawn were on the whole very positive and members agreed that it was most beneficial to both teachers of Religious Education and SACRE members alike. The overall question that emerged was, can WASACRE continue to develop this training in the future? Tania ap Sion asked members to consider this question. Vicky Thomas pointed out that there is a gap for this kind of training/event and asked how it is going to be filled, adding that the only forum that SACREs and teachers of RE have in Wales is WASACRE. Teachers on the chalk face who were present at the meeting were asked about their feelings regarding the lack of training available and the impact of the WASACRE conference. Comments received included: " It was a really worthwhile day", "It was a brilliant balance for teachers on SACRE", "It was fantastic, and the fact that the training was free was a good draw", "The training being free was important because it meant that teachers could be released". WASACRE Treasurer, John Mitson confirmed that the event was an excellent use of resources, costing in the region of £3000.00. Gill Vaisey urged members to consider that all the workshop providers were free on this occasion as many of the providers were also members of NAPfRE, and in future we should include some payment for this kind of work. In addition, there is a need for more administrative support, which would incur a cost if it could not be covered through member institutions. With these points in mind, all members supported the principle of WASACRE providing training in order to support local SACREs and teachers. Tania ap Sion confirmed that the WASACRE Executive are looking at future areas for training.

**9. Diweddariadau / *Up-dates***

(a) REQM – Phil Lord. Tania ap Sion thanked Phil for all his hard work on the Welsh REQM to make it relevant and useful in a Welsh context. Phil demonstrated the website to members and shared tips on how to navigate it. He explained that there is a particular way of getting to the Welsh part of the website for schools in Wales. Teachers must click on 'Wales' which is along the top bar to ensure that they do not download the schools in England version. The materials could be used to enable schools to assess themselves for free if they decided not to apply for the Quality Mark, and it also models what a good department should look like. There is a flyer available in the Welsh part of the REQM website to share in SACRE meetings and for SACREs to circulate to schools. Phil reminded members that the materials are free and urged members to draw schools' attention to the fact the qualification is for both primary and secondary schools. It is not just for state schools, but church schools as well and schools can use it to help with the self-evaluation process regardless of whether they will apply or not. Tania ap Sion reminded members that the Welsh version of the REQM is supported and recommended by WASACRE.

(b) Gwefan CCYSAGauC / *WASACRE website* – Tania ap Sion. Tania confirmed that the website has been updated and has almost all the annual reports and all the relevant resources for Religious Education from Welsh Government and Estyn on it. There is information on the conference and more resources will be going on the website from the conference including today's presentations.

**10. Datblygiadau CBAC / *WJEC developments* - Tudor Thomas.**

GCSE and GCE reform Wales and England. Key messages from WJEC

WJEC's role is to provide:

- qualifications that will give progression routes to the levels of skills and education that Wales will need to compete globally
- qualifications that are able to change with the times and are flexible enough to respond to Wales' changing needs
- engaging and accessible pathways that further develop the skills that are needed for 21st century employment and for life
- qualifications which contribute to a framework for lifelong learning
- valid and reliable assessment of learners' abilities
- support for teachers at these times of change

Awarding body deliverables are:

- regulatory requirements – specifications and specimen assessment materials
- WJEC bundle- guidance material for teachers, resources especially digital, initial support events and exam results analysis with on-line exam review support

DfE and OFCOL want to change A Level and GCSE qualifications in England including introducing a new grading system 1-9 (9 being the top grade), with no internal assessment. Although no date has been announced it is understood that the first teaching will probably start in September 2016. GCSEs will be re-written in England. A Level in England will be linear and AS will be a one (or two) year stand-alone qualification and will no longer link in to an A Level qualification. GCSE, AS and A Level will remain the same in Wales for the time being, but changes are expected. Exams in Wales will take place in June each year only.

One of the main concerns for GCE (AS and A Level) is that development is to be informed by Higher Education - the Russell Group universities in particular. RS is not considered by this group of universities to be an 'enabling' subject. Tudor Thomas reminded members that his contact details are available on the hand out and that WJEC are on twitter should anyone require further information. Tania ap Sion thanked Tudor for his presentation.

11. **Gohebiaeth /*Correspondence.*** Libby Jones announced that Wyn Hobson, the WASACRE translator has retired and a letter of thanks from WASACRE has been sent to him, with confirmation of receipt from Wyn himself. Tania ap Sion drew members' attention to the years of excellent service that Wyn had given to the Association and the Association's gratitude to him. It was confirmed that Garmon Davies has taken over from Wyn as the WASACRE translator.

12. **Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith / *Nominations for the Executive Committee.*** Tania ap Sion explained that there have been 6 nominations so far (closing date 28 March 2014). Tania emphasised how heartening it is to see so many SACRE members showing their commitment to the Association by putting their names forward. She made two points in relation to the process:

    1. With regard to Cllr Michael Gray's place on the Executive, Tania confirmed that he will be in place until this summer's AGM, to which Cllr Gray agreed.
    2. With regard to the issue about the tie in votes and how it should be resolved, Edward Evans explained that according to the ???? website the Chair needs to randomly and impartially choose (e.g. pin or toss a coin) between the two or more tying parties. Edward proposed that we adopt this procedure/practice, this was seconded by Rheinallt Thomas and to which members agreed. The full list of executive members along with the nominations will go out to all SACREs for the voting process so that they have the bigger picture.

13. **U.F.A. / *A.O.B.*** Resources: Gill Vaisey's 'Puddles and the Christening splash'. This resource will be produced in the big book format and the standard book and there will be a special addition for the public to buy as a christening gift at the end of May 2014. The website is currently being redesigned and re-launched, on which electronic resources will be available for free. Gill explained that she has recently shared some of her resources on the TES website and this has been a very useful experience in finding out what teachers want. E.g. the jigsaw shown to members at the meeting. Unfortunately the resources will not be available in Welsh due to lack of sales for the Welsh books Gill trialled last year. Mary Parry informed members of the recent Foundation Phase resources published by 'Peniarth' which are now available.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date of next meeting.***
    Wednesday, 2 July 2014 in Powys Council Chamber in Llandrindod Wells.
    Tania ap Sion clarified that the dates for the next six meetings will be available at the summer AGM. Libby Jones will organise this.

    Tania ap Sion thanked members for a very productive meeting and gave specific thanks to the following people:
    Mayor of Caerphilly, Councillor Michael Gray
    Manager for Education and Inclusion Caerphilly County Council, Keri Cole
    Translator, Rhian Powell
    Caerphilly SACRE Clerk, Emma Sullivan

RE advisor/consultant to Caerphilly Local Authority, Vicky Thomas
Michael Strange from RE Quest
Tudor Thomas from WJEC
All presenters

DRAFT

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (Gorffennaf 2, 2014)**

**Nominations for the Executive Committee (2 July 2014)**

Mae SAITH enwebiadau ar gyfer DWY swydd ar y Pwyllgor Gwaith.

There are SEVEN nominations for TWO positions on the Executive Committee.

**1. Y Parch. Roy Watson CYSAG Blaenau Gwent**

Mae'r Parch. Roy Watson yn Weinidog Methodistaidd sy'n gwasanaethu yn Abertyleri, Blaenau Gwent.

Mae profiad blaenorol a chyfredol y Parch. Watson fel a ganlyn:-

- Pennaeth AG, Ysgol Uwchradd Willows, Y Sblot, Caerdydd 1976 – 1996
- Aelod o CYSAG De Morgannwg 1992 – 1996
- Aelod o CYSAG Blaenau Gwent 1996 – presennol
- Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Coed-y- Garn, Nant-y-glo 1996 – presennol
- Cymdeithas Bêl-droed Cymru.  Dyfarnwr Pêl-droed 1980 – 2003
- Rhan o'r Tîm o Gaplaniaid, 6ed Dosbarth, Coleg Gwent, Glyn Ebwy

**Revd. Roy Watson Blaenau Gwent SACRE**

Rev. Roy Watson is a Methodist Minister covering Abertillery, Blaenau Gwent.

Rev. Watson's previous and current experience is as follows:-

- Head of RE, Willows High School, Splott, Cardiff – 1976 – 1996
- Member of South Glamorgan SACRE 1992 – 1996
- Member of Blaenau Gwent SACRE 1996 – present
- Chair of Governors, Coed y – Garn Primary School, Nantyglo 1996 – present
- Welsh Football Association.  Soccer Referee 1980 – 2003
- Part of Chaplaincy Team, 6th Form, Coleg Gwent, Ebbw Vale

**2. Y Cynghorydd D Michael Gray   CYSAG Caerphilly**

Rwy'n aelod oes o'r Eglwys Fethodistaidd. Ar ôl bod yn athro Ysgol Sul, rwy'n Bregethwr Lleol Trwyddedig yn yr Eglwys Fethodistaidd, yn organydd eglwys, ac yn swyddog eglwys ar lefelau ardal, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â bod yn Gydlynydd Cymorth Cristnogol lleol, yn gyn-Ysgrifennydd a chyn-Gadeirydd fy nghangen leol o 'Eglwysi Ynghyd', ac yn aelod cyswllt o CYTUN .

Rwy'n Gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac yn Gadeirydd Pwyllgor CYSAG Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac rwyf wedi cynrychioli CYSAG CBSC ar GCYSAGauC ers 1996.

Rwy'n gyn-aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, ac yn gyn-Is-gadeirydd (2008-2009) a chyn-Gadeirydd (2009-2011) CCYSAGauC, ac rwy'n dymuno cynnig i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC fy mhrofiad hir o gefnogi a hybu Addysg Grefyddol mewn ysgolion ledled Cymru.

**Councillor D Michael Gray   Caerphilly SACRE**

I am a lifelong member of the Methodist Church, having been a Sunday school teacher I am an accredited local Preacher of the Methodist Church, church organist, and church officer at local, regional & national level, also area Christian - Aid Coordinator and past Secretary , Chairman of my 'ChurchesTogether' and affiliated to  CYTUN .

I am a Caerphilly County Borough Councillor, Chairman of Caerphilly County Borough Council SACRE Committee and represented CCBC SACRE on WASACRE since 1996, up to the present date.

I am a past member of the WASACRE Executive Committee and also past Vice - Chairman (2008 - 2009) and Chairman of WASACRE (2009 - 2011), and wish to offer the WASACRE EXECUTIVE my long experience of supporting and projecting Religious Education throughout the schools of Wales.

**3. Wyn Myles Meredith  CYSAG Gwynedd**

Yr wyf yn dymuno gwasanaethu ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGC oherwydd fy mod yn ymroddedig i waith CYSAG Gwynedd yn lleol a thrwy hyn wedi mynychu a chefnogi Cymdeithas CYSAGau Cymru ers 1996 yn fy swyddogaeth fel Aelod o Gyngor Gwynedd hyd nes i mi ymddeol yn 2008.  Ers hynny, yn rhinwedd fy swydd fel Stiward Cylchdaith Meirion a Dyfi 'rwyf wedi cynrychioli'r Eglwys Fethodistaidd fel cynrychiolydd enwadol.

Tra yn Aelod ar Gyngor Gwynedd rwyf wedi gwasanaethu ar sawl pwyllgor.  Teimlaf bod fy mhrofiad ar y Pwyllgor Addysg ac yn Llywodraethwr yn golygu fy mod yn deall yr heriau sy'n wynebu ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal.  Rwyf yn edmygu ymroddiad Athrawon Addysg Grefyddol a Phenaethiaid Ysgolion wrth iddynt gyflwyno Addysg Grefyddol ystyrlon i blant a phobl ifanc.  'Rwy'n ymwybodol hefyd o'u hymdrechion clodwiw i sicrhau bod sesiynau addoli ar y cyd yn berthnasol i'w byd.

**Wyn Myles Meredith  Gwynedd SACRE**

I wish to serve on the WASACRE Executive Committee as I am committed to the work of Gwynedd SACRE locally and have attended and supported the Welsh Association of SACREs since 1996 in my role as a Member of Gwynedd Council until my retirement in 2008.  Since then, as part of my office as the Circuit Steward to the Meirion and Dyfi Area I have represented the Methodist Church as a denominational representative.

Whilst I was a member of Gwynedd Council I served on several committees.  I feel that my experience on the Education Committee and as a School Governor means that I understand the challenges facing primary and secondary schools in the area.  I admire the commitment of Religious Education Teachers and School Heads when they introduce meaningful Religious Education to children and young people.  I am also aware of their praiseworthy efforts to ensure that corporate worship sessions are relevant to their world.

**4. Y Cyng. Ernie Galsworthy  CYSAG Merthyr Tudful**

Bûm yn aelod o GYSAG ers Mai 2012, wedi i mi gael fy ethol i'r cyngor. Cyn hynny bûm yn gynghorydd rhwng 1987 a 2004, a gwasanaethais ar GYSAG Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod hwn a mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn ogystal.

Cefais fy magu mewn amgylchedd Bedyddwyr Cymreig, a than yr oeddwn yn 5 oed bûm yn byw gyda'm mam-gu, Cymraes nad oedd, yn anffodus, wedi dysgu Cymraeg i fy mam ond a wnaeth ei gorau i'm haddysgu i yn yr iaith. Wedi ei marwolaeth, fodd bynnag, collais yr iaith, ac ni ailafaelais ynddi tan y 1990'au hwyr pan fynychais gwrs WLPAN ym Mhrifysgol Caerdydd.

Rwy'n coleddu safbwynt heddychol, a'm harwyr yw Mahatma Gandhi, John Lennon ac Iesu Grist. Yr oeddynt ill tri'n heddychwyr, a chafodd y tri eu diwedd trwy drais. Mae bod yn heddychwr yn ddull peryglus o fyw, ac weithiau mae angen dewrder i fyw buchedd o’r fath.

Rwyf hefyd yn gynrychiolydd y cyngor ar y Pwyllgor Awdurdodau Lleol Di-niwclear; rwy'n credu bod hynny'n adlewyrchu fy nymuniad i fyw mewn heddwch.

Yr oedd fy nhri arwr yn Hindŵ, yn anffyddiwr ac yn Gristion. Er nad wyf yn cyd-fynd yn llwyr â safbwyntiau fy arwyr, mae gennyf barch mawr tuag atynt, ac rwy’n credu bod parch tuag at bob crefydd yn sylfaenol i heddwch byd-eang.

**Councillor Ernie Galsworthy  Merthyr Tudfil SACRE**

I have been a SACRE member since May 2012 after I was elected to council. I was previously a councillor from 1987 until 2004, and served on Merthyr Tydfil SACRE during this period and also attended WASACRE meetings.

I was brought up in a Welsh Baptist environment and until the age of 5 lived with my grandmother, a Welsh speaker, who unfortunately did not teach Welsh to my mother although, did her best to teach

me. Consequently after her death I lost the language and did not pick it back up again until the late 1990's when I attended a WPLAN course at Cardiff University.

I hold pacifist views and my great heroes are Mahatma Gandhi, John Lennon and Jesus Christ, All three were pacifists and met violent deaths. Being a pacifist is a dangerous way of living and sometimes courage is needed to live this life.

I am also the council representative on the Committee of Nuclear Free Local Authorities which I believe reflects how I wish to live in peace.

My three heroes were a Hindu, an atheist and a Christian. While I do not believe totally in the views of my heroes I have great respect for them and it is respect for all religions which I believe is fundamental for world peace.

**5. Gill Vaisey CYSAG Sir Fynwy**

Gill Vaisey, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol

Mae Gill Vaisey yn athrawes gymwysedig ac yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sy'n arbenigo mewn addysg gynradd ac addysg y blynyddoedd cynnar.

Ar ôl astudio ar gyfer ei gradd B.Add. Anrh, gydag Astudiaethau Crefyddol fel ei phwnc arbenigol, bu'n addysgu plant oed cynradd cyn ymgymryd â swydd fel Athrawes Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Ngwent a chyflawni swydd debyg wedyn gyda Morgannwg Ganol. Ers 1996 mae Gill wedi bod yn ymgynghorydd llawrydd llwyddiannus sy'n rhoi hyfforddiant a chymorth i ALlau, Esgobaethau ac ysgolion ledled Cymru a Lloegr ac mae bellach yn adnabyddus yn genedlaethol am ei gwaith gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Gill yw'r ymgynghorydd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent a Sir Fynwy ac mae'n cael ei henwebu gan Sir Fynwy i fod ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC.

Mae ei phrofiad perthnasol yn cynnwys:

- Aelod gweithgar o Gymdeithas CYSAGAU Cymru ers ei sefydlu
- Wedi bod yn darparu arbenigedd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent a Sir Fynwy ers 1996
- Wedi ysgrifennu Meysydd Llafur Cytûn ar gyfer AG a deunydd cymorth, cynllunio ac asesu cynhwysfawr cysylltiedig i athrawon ar gyfer sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Hyfforddiant a gwaith ymgynghorol rheolaidd ar gyfer athrawon cynradd ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ledled Cymru a Lloegr
- Rhoi hyfforddiant a chyngor i Awdurdodau Lleol ac Esgobaethau Eglwysig ledled Cymru a Lloegr

- Aelod o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol, y bu'n gadeirydd arno am dair blynedd
- Cynhyrchu llyfrau ac adnoddau i athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a gomisiynwyd gan ACCAC
- Chwarae rhan a rhoi cymorth yn uniongyrchol gyda phrosiectau amrywiol gan yr Adran Addysg a Sgiliau
- Cynhyrchu a chyhoeddi adnoddau am ddim ac i'w prynu (Books at Press) i gefnogi Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru a chwricwlwm EYFS a CA1 yn Lloegr
- Cysylltiadau clòs ag ystod eang o gymunedau ffydd a chynrychiolwyr unigol
- Aelod o Gymdeithas Ymgynghorwyr ac Arolygwyr AG y DU (AREIAC) ac aelod o'r pwyllgor gwaith gan gynrychioli Cymru am bedair blynedd a darparu seminarau'n rheolaidd ar gyfer ei haelodau

Yr ethos sy'n sail i'w hymgynghoriaeth yw hybu a chefnogi rhagoriaeth mewn addysg grefyddol mewn ysgolion a sefydliadau addysgol. Byddai Gill yn falch o gael cefnogi a rhannu ei harbenigedd gyda Phwyllgor CCYSAGAUC.

**Gill Vaisey Monmouthshire SACRE**

Gill Vaisey, Religious Education Consultant

Gill Vaisey is a qualified teacher and Religious Education Consultant specialising in primary and early years education.

After studying for her B.Ed. Hons. Degree, with Religious Studies as her specialist subject, she taught primary age children before taking up a post as Advisory Teacher for Religious Education in Gwent followed by a similar post with Mid Glamorgan.  Since 1996, Gill has been a successful freelance consultant providing training and support for LAs, Dioceses and schools across Wales and England and is now a nationally known figure for her work with Early Years children.

Gill is the professional consultant to Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs and is being nominated by Monmouthshire for a place on the WASACRE Executive Committee.

Relevant experiences include:

- An active member of the Welsh Association of SACREs since its inception
- Providing professional expertise to Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs since 1996
- Writing Agreed Syllabuses for RE and accompanying comprehensive teachers' support, planning and assessment material for several Local Authorities in Wales
- Regular training and consultancy for primary teachers and early years practitioners across both Wales and England

- Providing training and advice to Local Authorities and Church Dioceses across Wales and England
- A member of the National Advisory Panel for Religious education, of which she was chairperson for three years
- Producing Key Stage 1 books and teachers' resources commissioned by ACCAC
- Direct involvement and support with various DfES projects
- Producing and publishing free and purchasable resources (Books at Press) to support the Foundation Phase Curriculum in Wales and the EYFS and KS1 curriculum in England
- Close links with a wide range of faith communities and individual representatives
- A member of the UK Association of RE Advisers, Inspectors and Consultants (AREIAC) and executive committee member representing Wales for four years and regularly providing seminars for its members

The ethos behind her consultancy is to promote and support excellence in religious education in schools and educational establishments. Gill would be pleased to support and share her expertise with the WASACRE Committee.

**6. Vicky Thomas CYSAG Torfaen**

- Rwyf wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith am nifer o flynyddoedd a hoffwn barhau fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith am fy mod yn credu'n gryf bod gennyf lawer i'w gynnig o hyd i'r Gymdeithas a CYSAGau Cymru. Y Gymdeithas yw llais CYSAGau yng Nghymru sy'n brwydro'n galed i gynnal a gwella sefyllfa AG ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion. Mae'r cwricwlwm ysgolion yn newid yn gyflym a chredaf y gall fy mhrofiad fod o fudd i'r Gymdeithas wrth ofalu am fuddiannau CYSAGau ac ysgolion.
- Rwyf wedi bod yn Ymgynghorydd AG am dros 20 mlynedd ac ers ymddeol yn gynnar yn haf 2012 rwy'n gweithio fel Ymgynghorydd i CYSAGau Caerffili, Casnewydd, Torfaen ac Abertawe.
- Rwyf wedi bod yn chwarae rhan weithgar yng ngweithgareddau CCYSAGAUC ers ei sefydlu gan roi nifer o gyflwyniadau i CCYSAGAUC. Rwyf wedi cynrychioli'r Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod(ydd) blynyddol gyda'r Gweinidog Addysg neu gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Yn wir fe wnaeth y ddau gwestiwn a ofynnais i'r Gweinidog – sef galw am gyllid i ddisgyblion Cymru ar gyfer yr ymweliad blynyddol Gwersi o Auschwitz a'r Adolygiad o AG Uwchradd gan Estyn (Hydref 2013) – ill dau sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru.
- Rwy'n cynrychioli'r Pwyllgor Gwaith ar Grŵp Rhanddeiliaid Estyn, gan fynychu cyfarfodydd ac adrodd yn ôl wrth CCYSAGAUC.

- Rwyf wedi chwarae rhan fawr yn y broses o ysgrifennu dogfennau'r maes llafur cytûn a deunyddiau cymorth ac rwy'n cynghori athrawon ynghylch rhoi'r maes llafur cytûn ar waith ac ynghylch addysgu AG yn effeithiol.
- Rwyf wedi gwasanaethu ar nifer o weithgorau sy'n cydweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau ac wedi gwasanaethu ar y gweithgor ar gyfer AtGyfnerthu sy'n helpu i gynyddu hyder athrawon wrth ymdrin â materion cynhennus.
- Rwy'n arolygydd ysgolion cymwysedig ac wedi arolygu nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd dan gontract i Estyn.
- Rwy'n dal i fod yn frwd dros Addysg Grefyddol fel pwnc a'r hyn y gall ei ychwanegu at y cwricwlwm a dealltwriaeth plant a phobl ifanc.

**Vicky Thomas Torfaen SACRE**

- I have served on the Executive committee for a number of years and wish to continue as an Executive member because I strongly believe that I still have much to offer the Association and the SACREs of Wales. The Association is the voice of SACREs in Wales who are fighting hard to retain and improve the position of RE and Collective worship in schools. The school curriculum is rapidly changing and I believe that my experience can be of benefit to the Association in serving the interests of SACREs and schools.
- I have been an RE Adviser for over 20 years and since early retirement in Summer 2012 act as a Consultant Adviser for Caerphilly, Newport, Torfaen and Swansea SACREs.
- I have taken an active role in WASACRE activities since its inception making a number of presentations to WASACRE. I have represented the Executive in their annual meeting/s with the Minister for Education or WG representatives. In fact the two questions that I have put to the Minister - namely Wales' pupils to receive funding for the annual Lessons from Auschwitz visit and the Review of Secondary RE by Estyn (Autumn 2013) – both secured Welsh Government support.
- I represent the Executive on the Estyn Stakeholders group, attend meetings and report back to WASACRE.
- I have been very involved in the writing of agreed syllabus documents and support materials and advise teachers on implementing the agreed syllabus and on teaching RE effectively.
- I have served on a number of working groups that work collaboratively with DfES and served on the working party for REsilience which helps to increase teacher confidence in dealing with contentious issues.
- I am a qualified inspector of schools and have conducted a number of inspections both primary and secondary under Estyn contract.

- I continue to be passionate about Religious Education as a subject and what it can bring to the curriculum and the understanding of children and young people.

**7. Dafydd Treharne   CYSAG Bro Morgannwg**

1966 Pennaeth Adran AG a Dyniaethau mewn ysgol gyfun.

1974-96 Ymgynghorydd dros AG, Addysg Cyfrwng Cymraeg a Gofal Bugeiliol dros

AALl De Morgannwg ac yna yn ddiweddarach AALl Bro Morgannwg.

Ar hyn o bryd aelod cyfetholedig grŵp lliwio Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC)

1992- 2010 Arolygydd Tim gydag Estyn ar AG, Y Gymraeg a Gofal Bugeiliol

1996 - Aelod o 'CYSAG' Bro Morgannwg

2010 -2013 Aelod o 'Cymdeithas CYSAGau Cymru'

1996-2012 Cadeirydd Llywodraethwyr ysgol gynradd Gymraeg yn y Fro, bellach in Is Gadeirydd.

2010 - Llywodraethwr Sylfaen mewn ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru

2010-  Warden (y Rheithor) Eglwys Ioan Fedyddiwr, Llanfleiddan, Y Bont-faen.

2013 -Vale of Glamorgan Governors Association representative on Governors Wales.

**Dafydd Treharne   Vale of Glamorgan  SACRE**

!966-1974 Head of RE and Humanities in a comprehensive school.

1974 -1996 Adviser for RE, Welsh medium education and Pastoral Care for South Glamorgan LEA and then the Vale of Glamorgan LEA.

1992- 2010 Team Inspector for ESTYN in RE, Welsh and Pastoral Care

Currently Co-opted Member of Religious Education Movement Wales (REMW)

1996 Member of Vale SACRE

2010- 2013 Member of WASACRE executive nominated by Vale SACRE.

1996-2012 Chairman of Governor in Welsh medium primary school - presently deputy chairman.

2010  Foundation Governor in CinW Primary school.

2010  Church (Rector's) Warden in St John the Baptist, Llanblethian, Cowbridge

2013 Vale of Glamorgan Governors Association representative on Governors Wales.

# Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Trefniadau Asesu

Cymru

## Cais am dystiolaeth

ISBN digidol 978 1 4734 1422 8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21879

# Cefndir

Ar 12 Mawrth 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod yr Athro Graham Donaldson wedi'i benodi i arwain adolygiad eang ac annibynnol o drefniadau, asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol. Disgwylir i'r Athro Donaldson ddatblygu gweledigaeth glir, gydlynol ar gyfer trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, gan ei chysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau newydd.

Mae rhai newidiadau pwysig i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru eisoes yn weithredol ac mae rhai ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a phrofion darllen a rhifedd cenedlaethol. Mae hefyd wrthi'n ymgynghori ar gynnwys manwl ei Meysydd Dysgu diwygiedig (Cyfnod Sylfaen) a'i rhaglenni astudio (Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4) sy'n ategu ac yn atgyfnerthu'r dull a fabwysiadwyd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac ar gynigion am Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd estynedig, o 3 i 16 oed. Bydd adolygiad yr Athro Donaldson yn adeiladu ar y datblygiadau pwysig hyn ac yn sicrhau eu bod yn ffurfio rhan o gwricwlwm cydlynol, perthnasol, heriol a gwerthfawr sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn rhan hanfodol o'r broses a'r drafodaeth hon, ac fe'ch anogir i gymryd rhan drwy gwblhau'r holiadur isod – naill ai fel unigolyn neu fel rhan o drafodaeth grŵp. Gallai enghreifftiau o drafodaethau grŵp gynnwys y canlynol ymhlith pethau eraill: corff llywodraethu ysgol yn gosod cais am dystiolaeth yn eitem arbennig ar ei agenda, ysgol yn gwahodd grŵp o rieni/gofalwyr i drafod neu athrawon yn neilltuo amser i drafod gyda'u dosbarthiadau. Bydd eich ymatebion yn ffurfio rhan bwysig o sail tystiolaeth argymhellion yr Athro Donaldson ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad drwy ddilyn y ddolen hon: www.cymru.gov.uk/adolygiad-y-cwricwlwm

Os hoffech siarad â rhywun am yr adolygiad neu'r cais am dystiolaeth, cysylltwch â:

**ebost:** adolygiadycwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

# Nodyn gan yr Athro Graham Donaldson



Rydym ni i gyd yn deall pa mor bwysig yw addysg i ddyfodol ein plant a'n pobl ifanc, ac i ddyfodol Cymru'n gymdeithasol ac yn economaidd. Ysgolion yw sylfaen greiddiol y dyfodol hwnnw ac felly mae'n hanfodol bod yr addysg maen nhw'n ei darparu mor berthnasol, heriol a gwerthfawr â phosibl. Mae llawer i ymfalchïo ynddo ym maes addysg yng Nghymru a rhaid i ni adeiladu ar y cryfderau hyn. Ar yr un pryd, rhaid i ni hefyd adnabod y meysydd y gellid ac y dylid eu gwella. Dyna pam fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, AC, wedi gofyn i mi gynnal adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

Mae cylch gorchwyl fy adolygiad i'w weld yma:
www.cymru.gov.uk/adolygiad-y-cwricwlwm

Mae'n hollbwysig bod barn cynifer o bobl yng Nghymru â phosibl yn cyfrannu at fy nealltwriaeth o'r maes: athrawon, academyddion, rhieni/gofalwyr, busnesau, y gymuned ehangach, ac yn hanfodol, y bobl ifanc eu hunain. Mae gan bawb ran yn y dyfodol ac rwyf i am fod yn siŵr fod barn pawb yn cael ei hystyried wrth i mi ffurfio fy argymhellion. Byddwn felly'n annog pawb i ystyried y cwestiynau yn y cais hwn am dystiolaeth, boed yn unigol neu fel rhan o drafodaeth grŵp.

Rwyf i'n edrych ymlaen yn fawr at ddarllen eich cyfraniadau ac yn diolch i chi o flaen llaw am gymryd rhan a helpu i ffurfio dyfodol addysg yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad drwy ddilyn y ddolen hon:
www.cymru.gov.uk/adolygiad-y-cwricwlwm



**Yr Athro Graham Donaldson**
Mai 2014

# Cais am dystiolaeth

## Diben

Diben y cais hwn am dystiolaeth yw ennyn trafodaeth a cheisio eich barn chi. Mae'r cwestiynau felly'n aml yn agored ac yn eang.

## Cyfarwyddiadau

Fe'ch gwahoddir i gwblhau'r holiadur canlynol. Efallai y byddwch am ateb rhai o'r cwestiynau'n unig, neu bob un.

Mae modd i unigolion neu grwpiau gwblhau'r holiadur.

Nodwch eich ymateb i bob cwestiwn rydych chi am ei ateb yn y blwch priodol. Lle bo'n bosibl rhowch resymau am eich atebion i helpu'r Athro Donaldson i ddeall eich barn yn llawn. Ceir gofod ar ddiwedd y ddogfen i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

Mae cwestiynau 1–8 yn berthnasol i bawb.
Mae cwestiwn 9 wedi'i anelu'n benodol at rieni/gofalwyr.

Cymerwch amser i gwblhau'r adran manylion personol ar ddiwedd y ffurflen. Bydd hyn yn ein helpu i ddadansoddi'r cais am dystiolaeth.

Gallwch gwblhau'r holiadur yn electronig neu ar gopi caled.
Dylid dychwelyd yr holiaduron i:

Adolygiad o'r Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3BR

**ebost:** adolygiadycwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Dylid dychwelyd yr holiadur erbyn 30 Mehefin 2014 fan bellaf.**

Gallwch gynnwys gwybodaeth, tystiolaeth ac ymchwil ychwanegol gyda'ch ymateb. Anfonwch y rhain gyda'r holiadur wedi'i gwblhau. Defnyddiwch y gofod ar dudalen 19 i gofnodi unrhyw eitemau ychwanegol a gyflwynwyd.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y cais am dystiolaeth cysylltwch â thîm yr adolygiad:

**ebost:** adolygiadycwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

# Holiadur

**C1a. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylai pobl ifanc eu cael o ganlyniad i'w hamser yn yr ysgol?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C1b. Ydych chi'n credu y bydd y pethau hyn yn parhau i fod yn bwysig ymhen deng mlynedd?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C2a. Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C2b. Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru? Sut fyddech chi'n mynd ati i'w newid?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C3a. Faint o ryddid ddylai ysgolion ei gael i benderfynu ar yr hyn y dylen nhw fod yn ei addysgu?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C3b. A yw hi'n bwysig bod holl blant Cymru'n dysgu'r un peth â'i gilydd hyd nes eu bod yn 16 oed?**

Ydy ☐

Nac ydy ☐

Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C4a. Yng Nghymru, mae plant 3 i 7 oed yn astudio Meysydd Dysgu eang yn y Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn hyn ceir ffocws ar bynciau unigol am weddill eu haddysg gynradd ac uwchradd. Ydych chi'n meddwl mai dyma'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

**C4b. Os nad ydych, pa fodelau amgen fyddech chi'n eu cynnig?**

**C5. A oes unrhyw bynciau y dylid eu hychwanegu at y cwricwlwm neu eu tynnu oddi arno?**

Oes ☐

Nac oes ☐

Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C6. Mae plant yn dod o gefndiroedd gwahanol ac mae ganddyn nhw dalentau a galluoedd gwahanol. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod eu haddysg yn helpu pob un ohonyn nhw i gyflawni'r gorau y gallan nhw?**

**C7. Pa wybodaeth sydd angen i chi ei gwybod am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**C8. Ydych chi'n teimlo bod y cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn iawn ar hyn o bryd mewn ysgolion?** Nodwch reswm/rhesymau am eich ateb

**Cwestiwn ychwanegol i rieni/gofalwyr**

**C9. I ba raddau mae'r dulliau adrodd presennol sydd gan ysgolion yn eich helpu chi i ddeall sut mae eich plentyn/plant yn ei wneud yn yr ysgol?** Gallai'r dulliau presennol o adrodd gynnwys er enghraifft: adroddiadau ysgrifenedig, noson rieni/gofalwyr a chyswllt wyneb yn wyneb arall

Beth, os unrhyw beth, fyddai'n well gennych chi?

**Manylion personol**

**I helpu ein dadansoddiad, rhowch wybod i ni pwy sydd wedi cwblhau'r ffurflen ymateb hon.**

Manylion cyswllt (opsiynol):

| Rhaid ichi fod dros 18 oed i roi'r manylion hyn |
|---|

Daw'r ymateb hwn gan (enw): 

**Rhowch dic yn y blwch wrth ymyl yr ateb rydych chi'n dymuno ei ddewis**

**Mae'r ymateb hwn yn farn gan:**

**Unigolyn**

Disgybl/Myfyriwr ☐

Rhiant/Gofalwr ☐

Athro/Staff Cymorth ☐

Llywodraethwr ☐

Arall ☐

**Sefydliad** ☐

**Trafodaeth Grŵp** ☐

## A. Unigolyn

**Disgybl/Myfyriwr**

### Beth yw eich oed?

- 3–7 (Cyfnod Sylfaen) ☐
- 7–11 (Cyfnod Allweddol 2) ☐
- 11–14 (Cyfnod Allweddol 3) ☐
- 14–16 (Cyfnod Allweddol 4) ☐
- 16+ ☐

### Ym mha iaith ydych chi'n derbyn y mwyafrif o'ch gwersi?

- Cymraeg ☐
- Saesneg ☐
- Cyfuniad o'r ddwy iaith ☐

Os yw'r rhan fwyaf o'ch gwersi mewn iaith arall, rhowch wybod i ni.

### Pa fath o ysgol ydych chi'n ei mynychu?

- Ysgol fabanod ☐
- Ysgol gynradd ☐
- Ysgol uwchradd ☐
- Ysgol arbennig ☐
- Arall (nodwch)

**Rhiant/Gofalwr**

## Beth yw oed eich plentyn/plant?

3–7 (Cyfnod Sylfaen) ☐

7–11 (Cyfnod Allweddol 2) ☐

11–14 (Cyfnod Allweddol 3) ☐

14–16 (Cyfnod Allweddol 4) ☐

16+ ☐

## Ym mha iaith mae eich plentyn/plant yn derbyn y mwyafrif o’i addysg?

Saesneg ☐

Cymraeg ☐

Dwyieithog ☐

Arall (nodwch) ____________________

## Pa fath o ysgol mae eich plentyn/plant yn ei mynychu?

Meithrinfa ☐

Ysgol fabanod ☐

Ysgol gynradd ☐

Ysgol uwchradd ☐

Ysgol arbennig ☐

Arall (nodwch) ____________________

**Nodwch eich awdurdod lleol:**

**Athrawon a staff cymorth**

**Pa mor hir ydych chi wedi bod yn dysgu (blynyddoedd)?**

0–5 ☐

6–30 ☐

31+ ☐

**Pa un o'r canlynol fyddech chi'n ei ddefnyddio i'ch disgrifio eich hun?**

Staff cymorth ☐

Athro Newydd Gymhwyso (ANG) ☐

Athro dosbarth ☐

Athro pwnc ☐

Rheolwr lefel ganol ☐

Uwch Dîm Rheoli ☐

Pennaeth ☐

Arall (nodwch)

**Ym mha iaith ydych chi'n dysgu'r mwyafrif o'ch gwersi?**

Saesneg ☐

Cymraeg ☐

Yn ddwyieithog ☐

Arall (nodwch)

## Ym mha fath o amgylchedd ydych chi'n dysgu?

Meithrinfa ☐

Lleoliad nas cynhelir ☐

Ysgol fabanod ☐

Ysgol gynradd ☐

Ysgol uwchradd ☐

Ysgol arbennig ☐

Arall (nodwch) ____________________

## Nodwch eich awdurdod lleol:

____________________

**Llywodraethwr**

## Ym mha iaith y caiff y mwyafrif o'r cwricwlwm ei gyflwyno?

Saesneg ☐

Cymraeg ☐

Yn ddwyieithog ☐

Arall (nodwch) ____________________

## Pa fath o ysgol ydych chi'n llywodraethwr arni?

Meithrinfa ☐

Ysgol fabanod ☐

Ysgol gynradd ☐

Ysgol uwchradd ☐

Ysgol arbennig ☐

Arall (nodwch) ____

**Nodwch eich awdurdod lleol:**

____

**Arall**

Nodwch

____

## B. Trafodaeth Grŵp

**Sefydliad/ysgol sy'n cynnal y grŵp** ____

**Tua faint o bobl ddaeth i'ch digwyddiad?**

____

**Pryd gafodd eich digwyddiad ei gynnal?**

dd / mm / bbbb

**Pa wahanol fathau o bobl ddaeth i'ch digwyddiad (nodwch)?**

____

**Enw a rôl yr unigolyn sy'n cwblhau'r holiadur**

____

## C. Sefydliad

### Enw'r sefydliad

### Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch sefydliad?

Sector Preifat ☐

Sector Cyhoeddus ☐

Trydydd Sector ☐

Arall (nodwch)

### Y camau nesaf

Caiff ymatebion i'r cais am dystiolaeth eu dadansoddi a'u gwerthuso. Bydd yr ymatebion yn helpu i arwain cam nesaf yr adolygiad a bydd yn rhan bwysig o'r gronfa o dystiolaeth ar gyfer llunio argymhellion yr Athro Donaldson ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru.

## Gwybodaeth ychwanegol

**Defnyddiwch y gofod hwn i gofnodi unrhyw syniadau/sylwadau eraill yr hoffech chi eu cyflwyno ynghylch y materion a godir gan yr adolygiad hwn.**

**Nodwch deitlau unrhyw wybodaeth, tystiolaeth ac ymchwil ychwanegol rydych chi'n eu cyflwyno gyda'ch ymateb.**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan yr Athro Graham Donaldson a staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad hwn.

Efallai y bydd yr Athro Donaldson yn dewis cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl caiff yr ymatebion eu cyhoeddi'n llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod cais am dystiolaeth wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Trefniadau Asesu

# Cymru

## Holiadur plant a phobl ifanc

Mae'r Athro Donaldson wedi cael cais i adolygu beth sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion a sut mae'n cael ei addysgu. Fe hoffai glywed eich barn chi.



Ysgrifennwch gymaint ag y gallwch chi i'n helpu ni. Mae angen i ni gael eich barn erbyn **30 Mehefin 2014**, a gallwch ei hanfon drwy'r post neu'n electronig i:

Adolygiad o'r Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: **adolygiadycwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk**

Llenwch yr adran manylion personol ar y ffurflen er mwyn i ni gael gwybod pwy sydd wedi ymateb.

Digital ISBN 978 1 4734 1437 2
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21879

# Holiadur

**1a. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylech chi eu cael o'ch amser yn yr ysgol?**

1.

Pam?

2.

Pam?

3.

Pam?

**1b. Sut ydych chi'n meddwl y bydd y pethau hyn yn eich helpu chi yn y dyfodol?**

## 2. Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg chi?

1.

Pam?

2.

Pam?

3.

Pam?

## 3. Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella eich addysg?

1.

Pam?

2.

Pam?

3.

Pam?

4. Oes gwahaniaeth os ydych chi a'ch ffrindiau'n astudio pethau gwahanol i'ch gilydd yn yr ysgol?

Oes ☐ Nac oes ☐

Pam ydych chi'n meddwl hyn?

5. Yng Nghymru, rhwng 3 a 7 oed mae plant yn astudio Meysydd Dysgu eang fel 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd'. Wrth i chi fynd yn hŷn rydych chi'n astudio pynciau unigol, fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth.

Sut ydych chi'n meddwl ddylai'r pethau rydych chi'n eu dysgu gael eu trefnu i'ch helpu chi i gael y gorau o'ch amser yn yr ysgol?

6. Mae disgyblion eich ysgol chi'n dod o bob math o deuluoedd a chefndiroedd gwahanol ac mae ganddyn nhw dalentau a galluoedd gwahanol.

Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod addysg yn helpu pob disgybl i gyflawni'r gorau y gall wneud?

7. Beth sydd angen i chi ei wybod am eich llwyddiannau wrth i chi symud drwy'r ysgol?

Pam fod y pethau hyn yn bwysig?

8. Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthon ni?

# Gwybodaeth bersonol

I'n helpu ni i wybod pwy sydd wedi ymateb, nodwch y wybodaeth ganlynol. Ticiwch lle bo'n briodol.

| **Beth yw eich oed?** | |
|---|---|
| 3-7 (Cyfnod Sylfaen) | |
| 7-11 (Cyfnod Allweddol 2) | |
| 11–14 (Cyfnod Allweddol 3) | |
| 14–16 (Cyfnod Allweddol 4) | |
| 16+ | |
| **Ym mha iaith mae'r rhan fwyaf o'ch gwersi?** | |
| Saesneg | |
| Cymraeg | |
| Cyfuniad o'r ddwy iaith | |
| Os yw'r rhan fwyaf o'ch gwersi mewn iaith arall, dywedwch wrthym | |
| **Pa fath o ysgol ydych chi'n mynd iddi?** | |
| Ysgol fabanod | |
| Ysgol gynradd | |
| Ysgol uwchradd | |
| Ysgol arbennig | |
| Arall (nodwch pa fath) | |

# Y camau nesaf

Byddwn yn edrych yn ofalus ar eich atebion a byddan nhw'n helpu'r Athro Donaldson i ffurfio barn am beth ddylai gael ei addysgu mewn ysgolion, a sut ddylai gael ei addysgu.

**Diogelu Plant a effeithiwyd gan Gamdriniaeth yn y Cartref, Venue Cymru, 28 Mawrth 2014**

**Adroddiad i CYSAG Ynys Môn**

Yn y bore cawsom anerchiadau gan nifer o siaradwyr.

- Rhoddodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cynulliad dros Lywodraeth Leol, ddiweddariad am y ddeddfwriaeth arfaethedig ym meysydd Diogelu Plant rhag Camdriniaeth yn y Cartref, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, ac atal-caethwasiaeth.
- Cawsom gyflwyniad pwerus a hynod deimladwy gan un oedd wedi dod drwy Gamdriniaeth yn y Cartref, wedi i 20 mlynedd o ddioddef ymddygiad rheoli caeth a thrais. Dywedodd sut yr oedd ei gŵr wedi ei chaethiwo drwy symud lleoliad yn gyson fel nad oedd yn cael cyfle i ffurfio perthnasau, nid oedd ganddi unrhyw gysylltiad gyda'i theulu, nid oedd yn caniatáu iddi gael ffôn symudol na dysgu i yrru car ac roedd yn teimlo ymrwymiad i'w phlant. Yn y diwedd fe sylweddololdd na fyddai byth yn newid, gysylltodd hefo'i theulu unwaith yn rhagor a chyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oedd unrhyw bryderon wedi codi cyn hynny am ei phlant, ond fe gawsant eu rhoddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac yn y diwedd, fe garcharwyd ei gŵr am 9 mlynedd. Roedd yn canmol cefnogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu, a dywedodd sut yr oedd yn awr wedi llwyddo yn ei phrawf gyrru, roedd ganddi fywyd cymdeithasol, ac roedd pob un o'i phlant gartref gyda hi, ac roedd hi'n hapus.
- Siaradodd Paula Hardy, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru, am yr effaith y gall Camdriniaeth yn y Cartref ei gael ar blant, am arwyddion posibl o Gamdriniaeth Cartref, pam bod dioddefwyr weithiau'n methu â datgelu eu bod yn cael eu cam-drin, sut y gellir helpu dioddefwyr i ddatgelu, ac am gyfrifoldebau'r rhai y datgelir unrhyw gamdriniaeth iddynt.
- Siaradodd yr Athro Lorraine Radford, o Brifysgol Canol Sir Gaerhirfryn, am sut i 'adeiladu dycnwch' yn y sawl sy'n dioddef Camdriniaeth yn y Cartref, sut i helpu dioddefwyr i allu byw heb unrhyw effeithiau negyddol parhaol. Un elfen allweddol yw sicrhau perthynas barhaol gyda'r rhiant nad oedd yn cam-drin.
- Gan Gerallt Evans, Cyfreithiwr gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gweithio ar erlyn achosion o Gamdriniaeth yn y Cartref sy'n ymwneud â phlant, cafwyd gwybod am y gweithdrefnau a'r materion oedd ynglŷn â hyn, a sut y gellir cefnogi plant os oes angen iddynt roi tystiolaeth.

Yn y prynhawn cawsom ddewis o weithdai. Fe es i yn gyntaf i sgwrs gan ddau gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Prawf a fu'n siarad am sut y byddant yn ceisio monitro a chefnogi'r rhai y'u cafwyd yn euog o Gamdriniaeth yn y Cartref yn ystod eu dedfryd ac yn dilyn eu rhyddhau o garchar os mai dedfryd o garchar a gafwyd. Yn ail, fe es i weithdy lle cyflwynwyd i ni nifer o astudiaethau achos a chawsom ein gwahodd i adlewyrchu ar sut y byddem ni yn ymateb pe baem yn gorfod wynebu sefyllfa debyg.

Drwyddi draw roedd yn ddiwrnod oedd yn cynnig llawer o wybodaeth, ac yn ddiwrnod defnyddiol iawn i mi yn fy rôl fel un o Swyddogion Diogelu'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.

Y Diacon Stephen Roe

This page is intentionally left blank